# CYTUNDEB FFRAMWAITH RHWNG LLYWODRAETH CYMRU A CHOMISIYNYDD Y GYMRAEG

## CEFNDIR

1. Crëwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth y rôl i fodolaeth ar y 1af o Ebrill, 2012.

2. Pwrpas y Cytundeb Fframwaith yw amlinellu'r berthynas waith rhwng swyddogion Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru, tra'n parchu annibyniaeth y Comisiynydd. Mae hefyd yn amlinellu meysydd ble bydd cyd-weithio.

3. Mae natur y berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru o ran rhai elfennau o waith y Comisiynydd, gan gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i gyllid blynyddol a'r adroddiad blynyddol, wedi'u amlinellu yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'r cytundeb hwn yn disodli na chymryd blaenoriaeth dros yr hyn sydd wedi'i amlinellu yn y Mesur. Mae gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd yn digwydd yn annibynnol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

4. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd gwrthdaro'n codi mewn cysylltiad â'r dyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru, maes o law, i weithredu Safonau'r Gymraeg. Yn y cyswllt hwn bydd y Comisiynydd yn trin Llywodraeth Cymru fel unrhyw sefydliad arall sydd o dan ddyletswydd i weithredu Safonau'r Gymraeg.

## CYFARFODYDD

5. Bydd y Comisiynydd, yn arferol, yn cyfarfod gyda Gweinidog Cymru sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg ddwywaith y flwyddyn, neu'n amlach pe byddai angen. Bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod, ymysg materion eraill, materion yn ymwneud â pholisi'r Gymraeg, adnabod cyfleoedd i gydweithio a rhoi cyfle i'r Comisiynydd roi cyngor i'r Gweinidog. Bydd cofnod yn cael ei baratoi o bob cyfarfod.

6. Bydd swyddogion y Comisiynydd yn cyfarfod, yn arferol, yn chwarterol gydag Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg.

Ymysg materion eraill, bydd modd trafod unrhyw gais am newid gwaelodlin cyllideb y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol, materion polisi a gweithredol ac adnabod cyfleoedd i gydweithio. Bydd cofnod yn cael ei baratoi o bob cyfarfod.

7. Bydd swyddogion y Comisiynydd yn cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru fel bo angen i drafod y gyllideb, safonau, ac i gyd-weithio ar y meysydd a amlinellir yn yr atodiad. Bydd cofnod yn cael ei baratoi fel bo'n briodol.

**RHANNU GWYBODAETH**

8. Mewn cysylltiad â gweithredu Safonau'r Gymraeg bydd Comisiynydd y Gymraeg ac Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth ffeithiol gyda'i gilydd yn brydlon ac yn rhagweithiol i'r graddau y bydd yn briodol i ryddhau'r wybodaeth honno.

9. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o leiaf dau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw, gan rannu darnau dethol neu grynodeb, os yw yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ddogfennaeth neu wneud cyhoeddiadau sydd yn debygol o arwain at sylw cyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i baratoi ei hymateb. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn datgelu gwybodaeth o'r fath cyn i'r Comisiynydd wneud ei chyhoeddiad.

10. Pan fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad ynglŷn â Llywodraeth Cymru, neu sy'n ymwneud â'i meysydd polisi, bydd yn rhannu gwybodaeth o flaen llaw ac yn ystyried sylwadau Llywodraeth Cymru cyn cwblhau'r gwaith. Bydd copi o'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru o leiaf pum diwrnod gwaith llawn cyn cyhoeddi'r adroddiad.

11. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd o leiaf dau ddiwrnod gwaith o flaen llaw, gan rannu darnau dethol neu grynodeb, os yw yn bwriadu cyhoeddi unrhyw adroddiad neu wneud cyhoeddiad sydd yn debygol o arwain at sylw cyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiynydd i baratoi ei hymateb. Ni

fydd y Comisiynydd yn datgelu gwybodaeth o'r fath cyn i Lywodraeth Cymru wneud ei chyhoeddiad.

12. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad ynglŷn â'r Comisiynydd, neu sy'n ymwneud â'i meysydd polisi, bydd yn rhannu gwybodaeth o flaen llaw ac yn ystyried sylwadau'r Comisiynydd cyn cwblhau'r gwaith. Bydd copi o'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Comisiynydd o leiaf pump ddiwrnod gwaith llawn cyn cyhoeddi'r adroddiad.

13. Bydd Llywodraeth Cymru yn gadael i'r Comisiynydd a'i Phwyllgor Archwilio a Risg wybod cyn gynted â phosib am unrhyw archwilio mewnol neu adolygiad ariannol all gael effaith ar y Comisiynydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod y Comisiynydd yn derbyn copi o Gylch Gorchwyl archwiliad neu adolygiad o'r fath, ynghyd â chopi o'r adroddiad terfynol. Bydd y Comisiynydd yn paratoi unrhyw wybodaeth fydd ei hangen ar gyfer paratoi, neu yn ystod, unrhyw archwiliad neu adolygiad.

**ARIANNU'R COMISIYNYDD**

14. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau'r Comisiynydd am gyllid mewn modd teg. Wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol sicrhau bod y Comisiynydd o dan cyn lleied o gyfyngiadau ag y bo'n rhesymol bosibl wrth iddo benderfynu; ar ei weithgareddau, ar ei amserlenni ac ar ei flaenoriaethau. Bydd cyfle i'r Comisiynydd ymateb i unrhyw newid arfaethedig i waelodlin y gyllideb i egluro goblygiadau'r newidiadau hyn ar ei gwaith ac i ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Ar gais y Comisiynydd, os bydd angen, trefnir cyfarfod arbennig rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiynydd i drafod y gyllideb.

15. Prosesau ac amserlen

| **Proses** | **Amserlen** |
|---|---|
| Comisiynydd y Gymraeg i gyflwyno drafft o'i Hamcangyfrif Incwm a Gwariant i swyddogion Llywodraeth Cymru a fydd yn sail i drafodaeth lefel | Comisiynydd i gyflwyno y ddogfen ddrafft ddiwedd mis Awst neu ddechrau |

| | |
|---|---|
| y cyllid y bwriedir ei roi i'r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol er mwyn rhoi amser ar gyfer cynllunio a pharatoi Amcangyfrif o Incwm a Gwariant. | mis Medi.<br><br>I'w thrafod yn nghyfarfod chwarterol yn ystod mis Medi/mis Hydref. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Comisiynydd o'i chyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn dilyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. | Ar ddechrau mis Hydref yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiynydd yn trefnu cyfarfod arbennig i drafod y gyllideb ddrafft arfaethedig fel bo'r angen | I'w drefnu os oes angen. |
| Y Comisiynydd i gyflwyno Amcangyfrif o Incwm a Gwariant i Lywodraeth Cymru. | Yn unol â Mesur y Gymraeg o leiaf pum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ym mae'n ymwneud â hi. |
| Llywodraeth Cymru i osod yr Amcangyfrif o Incwm a Gwariant gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r addasiadau (os oes rhai)sy'n briodol yn eu tyb hwy. | Yn unol â Mesur y Gymraeg. Caiff hyn ei wneud yn fuan ar ôl i Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi ac wedi i'r Comisiynydd gael ei hysbysu o'r gyllideb. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru i gadarnhau cyllid y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn dilyn cyhoeddiad Cyllideb Derfynol Llywodraeth. | Ar ddechrau mis Rhagfyr yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol. |
| Y Comisiynydd i Gyflwyno ei Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. | Yn unol â Mesur y Gymraeg rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ganlynol. |

16. Mae modd i'r Comisiynydd ddwyn swm rhesymol o arian ymlaen o'r naill flwyddyn ariannol i'r llall i greu cronfa arian wrth gefn. Bydd rhaid defnyddio'r arian yma yn unol â'r telerau sydd wedi eu hamlinellu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**CYD-WEITHIO**

17. Mae modd i swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiynydd i gyd-weithio mewn nifer o feysydd, a gall y rhain amrywio o dro i dro. Bydd hyn yn sicrhau fod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau. Amlinellir y meysydd hyn yn yr Atodiadau, a gellir ychwanegu a'u diweddaru drwy gytundeb pan fo'n briodol.

**ADOLYGU**

18. Mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn cytuno i adolygu'r Fframwaith hwn erbyn 30 Medi 2015 a'i ddiweddaru drwy gytundeb.

| | |
|---|---|
| ............................................. | ............................................. |
| Owen Evans<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol<br>dros Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>ar ran y Gweinidog â chyfrifoldeb<br>am yr iaith Gymraeg. | Meri Huws<br>Comisiynydd y Gymraeg |
| Dyddiad..15 - 07..........................2014 | Dyddiad ....15 - 07............................2014 |